# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Coalbrook Care**

**39 Heol Nant y Glo**
**Pontyberem**
**Llanelli**
**SA15 5HU**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

29/08/2024

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Coalbrook Care

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Reflect Education Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 8 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Ionawr 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yng nghartref Coalbrook yn cael cymorth gan staff gofal sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli ac sy'n llawn cymhelliant i ddarparu'r cymorth gorau i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt. Gall unigolion wneud pethau sydd o ddiddordeb iddynt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gwybodaeth ar gael i'r staff gofal yn y cynlluniau personol am roi cymorth i'r bobl yn y ffordd yr hoffent gael cymorth. Bydd datblygu cynlluniau personol darparwr y gwasanaeth yn gwella hyn. Mae'r gwaith tîm yn amlwg ac mae'n sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth cywir pan fyddant am ei gael. O ganlyniad, caiff y staff gofal gyfleoedd hyfforddiant i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Mae trefniadau clir ar waith ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Caiff ansawdd y gwasanaeth ei adolygu drwy ystyried safbwyntiau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion ac a gaiff ei gynnal i safon uchel iawn.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae hyn yn cynnwys yr hyn y maent am ei wneud yn ystod y dydd, y prydau bwyd a'r diodydd y maent am eu cael a ble y maent yn treulio eu hamser yn y gwasanaeth. Ymgynghorir â nhw am y cymorth y maent am ei gael a chânt eu cefnogi gan dîm ymroddedig sy'n gyfarwydd ag amgylchiadau unigol y bobl yn dda iawn. Mae'r staff gofal yn rhoi cymorth i'r bobl y mae angen help arnynt i wneud penderfyniadau pwysig a lleisio eu barn. Mae gwybodaeth ar gael am yr hyn y gellir ei ddisgwyl tra'n byw yn Coalbrook. Gall y bobl gyfrannu syniadau a'u safbwyntiau am y gwasanaeth drwy gyfarfodydd preswylwyr rheolaidd ac arolygon a anfonir at y bobl sy'n ymwneud â'r gwasanaeth. Gall y bobl a'r staff gofal gyfathrebu yn Gymraeg. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ystyried ffyrdd o wella darpariaeth y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg lle y gall y bobl gael eu gwasanaeth yn Gymraeg.

Caiff y bobl eu cefnogi i gadw'n iach ac yn actif i hybu eu llesiant. Caiff y bobl eu hannog yn gryf i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau a chaiff y cyswllt hwnnw ei werthfawrogi. Cadarnhaodd un perthynas, *"I can't think of any ways to improve the service."* Caiff y bobl eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yn y gwasanaeth neu yn y gymuned. Cânt hefyd eu cefnogi i wneud pethau y maent yn eu mwynhau fel unigolion, gan gynnwys mynd i siopa, mynd i'r caffi, mynd allan am dro neu fynychu gwasanaethau dydd. Roeddent yn awyddus i ddangos eu gwaith celf a chrefft i ni yn ogystal â dangos y pethau a oedd yn bwysig iddynt. Caiff cymorth ei ddarparu gan dîm o staff ymrwymedig a ddywedodd wrthym yn gyson fod y niferoedd staffio a'r gwaith tîm yn eithriadol o dda. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn cael y cymorth y maent am ei gael pan fydd ei angen arnynt, fel y gwelsom yn ystod ein hymweliad. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol mewn modd amserol a chaiff y bobl gymorth gyda'u meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae mesurau ar waith i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Mae'r staff gofal yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon am lesiant y bobl ac i bwy y dylid rhoi gwybod am y pryderon hynny. Maent yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i anghenion y bobl y maent yn eu cynorthwyo. Caiff y cofnodion gofal eu cadw'n gyfredol er mwyn i'r staff eu dilyn. Mae'r arferion recriwtio yn helpu i sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw mor ddiogel â phosibl. Mae'r llety'n addas ar gyfer anghenion y bobl. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cynnal ac mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi sicrwydd y bydd ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau diogelwch y bobl ymhellach.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth gan dîm o staff caredig a gwybodus sy'n gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod y bobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom amgylchedd hamddenol gyda llawer o chwerthin a rhyngweithio hyfryd rhwng unigolion a'r staff gofal. Roedd yn amlwg eu bod yn gyfforddus iawn yn eu cwmni. Mae'r staff gofal yn adnabod pob unigolyn yn ac yn deall yr hyn sy'n bwysig iddo. Maent yn ceisio gweithio gyda'r unigolyn i'w helpu i wireddu ei ddymuniadau a'i ddyheadau. Mae ein harsylwadau a'r sylwadau gan y staff gofal a'r perthnasau yn dangos ymrwymiad y staff gofal. Mae'r sylwadau yn cynnwys, *"my job is to make a difference to the lives of people I care for," "the residents we care for are all very special to the staff."* Mae sylwadau'r perthnasau yn cynnwys, *"staff go above and beyond and are so friendly and welcoming"* ac *"I can't fault the staff."*

Mae amseroedd bwyd yn ddigwyddiadau cymdeithasol. Gwelsom y bobl yn eistedd gyda'i gilydd ac yn bwyta prydau gwahanol o'u dewis. Mae bwydlen ar gael, ond dywedodd y staff gofal wrthym y gall y bobl gael yr hyn y maent am ei gael, gan ddangos ymhellach fod dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith i gefnogi'r bobl. Ni chaiff y cymorth ar gyfer y bobl y mae angen help arnynt i fwyta ac yfed ei frysio ac mae'r staff gofal yn sgwrsio â'r unigolion er mwyn sicrhau eu bod yn cael y profiad gorau posibl yn ystod amser bwyd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae cofnodion gofal ar waith ac yn cynnwys gwybodaeth i'r staff gofal ei dilyn. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn adlewyrchu canlyniadau personol y bobl. Er bod gwybodaeth yn cael ei darparu gan yr awdurdodau lleoli, dylai darparwr y gwasanaeth ddatblygu cynlluniau personol unigol a'u hadolygu'n rheolaidd. Cawsom sicrwydd y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â hyn. Mae asesiadau risg ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel a hyrwyddo eu hannibyniaeth. Lle nad oes gan y bobl alluedd, gwneir penderfyniadau i gefnogi eu lles pennaf a sicrhau bod arferion lleiaf cyfyngol ar waith.

Caiff y bobl gymorth i gael gafael ar ofal iechyd pan fo angen. Mae'r staff gofal yn nodi materion ac yn ceisio cymorth gan weithwyr proffesiynol perthnasol er mwyn sicrhau bod y bobl mor ddiogel â phosibl. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cyfarpar i hybu anghenion iechyd. Roedd y trafodaethau â'r staff gofal a'r cofnodion a welsom yn cadarnhau hyn. Caiff meddyginiaeth ei storio mewn cwpwrdd dan glo. Roedd y sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth a welsom wedi'u cwblhau'n llawn ac yn dangos bod yr holl feddyginiaeth wedi'i rhoi fel y'i rhagnodwyd. Caiff archwiliadau eu cynnal ac mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant i wneud yn siŵr bod yr ymarfer hwn yn parhau'n ddiogel.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi mewn lleoliad ac amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion. Mae cyfarpar ar gael iddynt i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Dengys cofnodion fod y cyfarpar yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd a bod y staff gofal yn cael hyfforddiant i sicrhau bod y bobl yn cael eu cadw mor ddiogel â phosibl. Mae lleoliad y gwasanaeth yn golygu bod y bobl yn gallu cyrraedd y gymuned leol a'i chyfleusterau yn hawdd. Mae cerbydau ar gael er mwyn i'r bobl ymweld â'r gymuned ehangach. Mae'r llety ar y llawr gwaelod ar hyn o bryd. Gwelsom y bobl yn symud yn rhydd o amgylch y cartref ac yn treulio amser ble roeddent yn dymuno. Roedd rhai yn cymdeithasu ger y bwrdd bwyta, rhai yn ymlacio yn y lolfa ac eraill yn treulio amser mewn ardaloedd tawelach yn unol â'u dewisiadau. Mae cynllun y gwasanaeth yn annog y bobl i gymdeithasu ac mae ardaloedd preifat ar gael i'r bobl eu mwynhau ar eu pen eu hunain neu gyda'u hymwelwyr. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u haddurno'n unigol i safon uchel iawn. Siaradodd y bobl yn frwdfrydig am eu hystafelloedd gwely a'r eitemau a oedd yn bwysig iddynt a oedd i'w gweld, gan hyrwyddo eu ffordd o fyw a'u dewisiadau. Mae ardal y gegin yn fawr ac yn hyrwyddo coginio cymunedol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae gerddi mawr hygyrch ar gael i'r bobl eu mwynhau. Cânt eu cynnal a'u cadw i safon uchel iawn. Caiff y bobl eu cefnogi i gymryd rhan yn y gwaith o gynnal a chadw'r gerddi ac i gyflawni tasgau eraill o amgylch y gwasanaeth, gan gynnwys rhoi'r biniau allan. Mae pwll nofio ar gael sydd eto mewn cyflwr da.

Mae mesurau iechyd a diogelwch ar waith i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Caiff y cyfarpar a'r cyfleusterau, gan gynnwys y teclynnau codi a'r slingiau, eu profi'n rheolaidd. Mae gwaith wedi'i wneud i wella diogelwch tân yn unol â chyngor gan y gwasanaeth tân yn ystod ymweliad diweddar. Caiff y cyfarpar diogelwch tân ei brofi yn fewnol a chan gontractwyr allanol ac mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant diogelwch tân. Ni chaiff ymarferion tân eu cynnal mor aml ag y dylent, ond mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi sicrwydd ei fod yn mynd i'r afael â hyn. Mae gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth Gynllun Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP), sy'n rhoi arweiniad i'r staff gofal ynghylch sut i helpu'r bobl i adael yr adeilad os bydd argyfwng.

Mae'r gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Mae amserlenni glanhau ar waith. Mae'n amlwg o'n harsylwadau a'n trafodaethau â'r staff gofal eu bod yn ymfalchïo yn yr amgylchedd ac yn ei gadw'n lân ac yn daclus. Caiff y bobl hefyd eu hannog a'u cefnogi i ymgymryd â thasgau byw dyddiol, gan gynnwys dystio. Cadarnhaodd y staff gofal fod ganddynt ddigon o gynhyrchion a gaiff eu cadw dan glo pan na fyddant yn cael eu defnyddio. Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith i'r staff ac ymwelwyr eu dilyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl yn cael budd o dîm rheoli effeithiol a gaiff ei arwain yn dda lle mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi a lle mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fyw'r bywyd gorau posibl yn gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Mae'n cymryd amser i wrando ar safbwyntiau'r bobl a'r staff gofal. Yn ddieithriad, dywedodd y tîm rheoli a'r staff fod yr Unigolyn Cyfrifol yn eu cefnogi'n dda iawn a dywedwyd ei fod yn *"absolutely fantastic."* Gofynnir am safbwyntiau'r bobl yn rheolaidd drwy ffyrdd amrywiol, gan gynnwys cyfarfodydd, trafodaethau un i un â'r staff a'r tîm rheoli, a holiaduron. Roedd y cofnodion a welsom yn nodi bod awgrymiadau i wella bob amser yn cael eu hystyried a bod y gwasanaeth yn gweithredu arnynt lle y bo'n bosibl. Cafodd hyn ei gadarnhau gan y staff y gwnaethom siarad â nhw.

Mae gwybodaeth am yr hyn y gall y gwasanaeth ei ddarparu ar gael yn y Datganiad o Ddiben. Mae canllaw ar gael sy'n rhoi rhagor o wybodaeth i'r bobl am y gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl yn Coalbrook. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da. Nid yw'r darparwr yn hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru am unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau o bwys sy'n effeithio ar unigolion. Er nad yw hyn yn effeithio ar y bobl, mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi sicrwydd y bydd yn ymdrin â hyn.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r bobl yn cael cymorth gan dîm o staff gofal sy'n cael eu cefnogi'n dda ac sy'n cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl yn y gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn frwdfrydig iawn am y gwasanaeth ac yn arbennig am y cymorth y maent yn ei gael gan y tîm rheoli. Mae'r sylwadau yn cynnwys, "*It's a lovely place to work, staff work as a team*," "*I wouldn't change anything as staff work well together*" a "the *owners are supportive …always step up to help out*". Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd gyda'u rheolwr llinell lle y gallant fyfyrio ar eu hymarfer a thrafod unrhyw faterion a allai fod ganddynt, a chadarnhaodd y staff gofal hyn. Mae'r arfarniad blynyddol o'u perfformiad yn eu galluogi i nodi anghenion hyfforddiant pellach i'w cefnogi yn eu rôl. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff gofal yn cael hyfforddiant i gefnogi'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, gwnaethant ddweud wrthym y byddent yn elwa ar gael mwy o hyfforddiant ymarferol wyneb yn wyneb er mwyn meithrin eu gwybodaeth a'u sgiliau ymhellach. Trafodwyd hyn â'r tîm rheoli a fydd yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal yn rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth â'r tîm a thrafod pynciau fel grŵp.

Mae'r arferion recriwtio yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel. Cadarnhaodd y ffeiliau a welsom fod yr holl wiriadau priodol yn cael eu cynnal cyn i unigolyn ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru neu'n gweithio tuag at hyn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Donot_Delete

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi